

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>CYNGOR LLAWN</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>10 MAWRTH 2020</b>
<b>PWNC:</b>	<b>CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL AR GYFER 2020/21</b>
<b>AELOD(AU) PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD R WILLIAMS</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH :</b>	<b>MARC JONES (EST. 2601)</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD:</b> FFÔN: E-BOST:	<b>MARC JONES</b> <b>EST. 2601</b> <b>rmjfi@ynysmon.gov.uk</b>
<b>AELODAU LLEOL:</b>	<b>d/b</b>

### A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

#### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor llawn cymeradwyo cyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21.

#### 2. ARGYMHELLION

- Argymell y Rhaglen Gyfalaf ganlynol ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor llawn:-

	£'000	Cyf
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20	5,829	Adran 2.2
Adnewyddu/Amnewid Asedau	6,192	Adran 2.4
Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd	2,174	Gweler adroddiad 13/01/2020
Mân-ddaliadau a gyllidir o dderbyniadau cyfalaf	100	"
Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	2,755	Adran 2.3
Cyfrif Refeniw Tai	20,255	Adran 2.6
<b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21</b>	<b>37,305</b>	
<b>Cyllidir drwy:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,165	
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol	2,364	
Benthyca â Chefnogaeth a ddygwyd ymlaen o 2019/20	1,034	
Derbyniadau Cyfalaf	245	
Arian Cyfalaf Wrth Gefn	500	
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	721	
Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	1,145	
Arian Wrth Gefn y CRT a gwarged y flwyddyn	14,228	
Benthyca Digefnogaeth CRT	250	
CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20	3,117	
Grantiau Allanol	5,782	
Cyllid y Cyngor a ddygwyd ymlaen o 2019/20	5,754	
<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf ar gyfer 2020/21</b>	<b>37,305</b>	

<b>B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?</b>		
Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf gyda fforddiadwyedd a gwneud y mwyaf o gyllid grant allanol fel y prif ffactorau cyllidol. Nid yw'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau Cyfalaf ychwanegol, os cânt eu cefnogi, yn ymrwmo'r Cyngor i lefel o fenthycia sy'n cynyddu'r ddarpariaeth refeniw isaf neu daliadau llog i lefel na ellir ei fforddio.		
<b>C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?</b>		
Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y gyllideb gyfalaf.		
<b>CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?</b>		
Ydi		
<b>D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</b>		
D/B		
<b>DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)</b>	Mae sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad
2	<b>Cyllid / Swyddog 151 (mandadol)</b>	d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)</b>	Mae sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
5	<b>Eiddo</b>	Ymgynghoryd â Gwasanaethau Eiddo yn y brorses o lunio'r gyllideb ddrafft arfaethedig
6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	
7	<b>Sgriwtini</b>	Ystyriwyd y gyllideb ddrafft arfaethedig gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020
8	<b>Aelodau Lleol</b>	D/B
9	<b>Unrhyw gyrff allanol eraill</b>	D/B
<b>E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)</b>		
1	<b>Economaidd</b>	
2	<b>Gwrthdodi</b>	
3	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	
4	<b>Amgylcheddol</b>	
5	<b>Cydraddoldebau</b>	
6	<b>Cytundebau Canlyniad</b>	
7	<b>Arall</b>	
<b>F - Atodiadau:</b>		
Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf 2020/21 Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig 2020/21		
<b>FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>		
Cyllideb Gyfalaf Ddrafft – Pwyllgor Gwaith – 13 Ionawr 2020 Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Pwyllgor Gwaith – 2 Mawrth 2020		

## CYLLIDEB GYFALAF DRAFFT 2020/21

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020, argymhellodd y Pwyllgor Gwaith bod y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ganlynol ar gyfer 2020/21, a ddangosir yn Nhabl 1 isod, yn cael ei chymeradwyo. Mae'r Gyllideb Gyfalaf drafft ar gyfer 2020/21, a nodir isod yn Nhabl 1 ac Atodiad 2, yn cymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn Chwefror 2019 a'r Cyngor llawn ym Mai 2019. Mae hefyd yn bodloni egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2020/21, a fydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Rhaglen Gyfalaf hon.

Tabl 1

**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21 a gafodd ei Hargymell yn y Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr 2020**

	£'000	Cyf yn Adroddiad y Gyllideb Gyfalaf Ddrafft 2020/21, Pwyllgor Gwaith 13 Ionawr 2020
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20	3,294	Para 4.1 a Thabl2
Adnewyddu/Amnewid Asedau	5,158	Para 4.2.2 a Thabl 3
Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd	2,174	Para 5.2 a Thabl 4
Mân-ddaliadau a gyllidir o dderbyniadau cyfalaf	100	Para 5.7
Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	9,039	Para 6
Cyfrif Refeniw Tai	17,138	Para 7
<b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21</b>	<b>36,903</b>	
<b>Cyllidir drwy:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,165	
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol	2,364	
Derbyniadau Cyfalaf	245	
Arian Cyfalaf Wrth Gefn	500	
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	2,680	
Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	3,679	
Arian Wrth Gefn y CRA ac arian dros ben yn y flwyddyn	14,228	
Benthyca Digymorth CRA	250	
Grantiau Allanol	7,572	
Arian y Cyngor a ddygwyd ymlaen o 2019/20	3,219	
<b>Cyfanswm Arian Cyfalaf ar gyfer 2020/21</b>	<b>36,903</b>	

## 2. CANLYNIAD Y BROSES YMGYNGHORI

2.1 Derbyniwyd nifer fechan o sylwadau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2020/21 yn ystod yr ymgynghoriad ar gyllideb 2020/21 a ddaeth i ben ar 7 Chwefror 2020.

2.1.1 Roedd un ymatebwr yn cefnogi'r Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ond mynegodd bryder am fuddsoddi yn Ysgol Syr Thomas Jones, gan fod yr ymatebwr o'r farn nad oedd yn addas i bwrpas. Roedd unigolyn arall yn argymhell y dylai'r rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ganolbwytio fwy ar yr ysgolion uwchradd. Gofynnodd un i'r Cyngor ddarparu 50% mwy o gapasiti na'r capasiti a amcangyfrifir os bydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Tynnwyd sylw at yr angen cynyddol am fwy o leoedd ysgol yn Llangefni. Dywedodd yr unigolyn nad oes digon o leoedd yn Ysgol y Graig, sydd yn ysgol cymharol newydd.

**2.1.2** Roedd un ymatebwr yn argymhell gwerthu neu resymoli tir ac eiddo'r Cyngor.

**2.1.3** Mynegodd un ymatebwr bryder ynghylch yr angen i brynu cerbyd graeanu newydd ac roedd yn ystyried fod yn gost yn rhy uchel o ystyried cyn lleied o ddefnydd fyddai'n cael ei wneud ohono.

**2.1.4** Roedd ymatebwr yn cwestiynu'r angen am welliannau TG bob blwyddyn.

**2.1.5** Gwnaeth un ymatebwr sylwadau cyffredinol a fyddai'n addas ar gyfer y gyllideb refeniw neu'r gyllideb gyfalaf fel a ganlyn "Nid ymddengys bod unrhyw beth arloesol na chreadigol i gynhyrchu incwm neu ddenu buddsoddiad yn yr ardal. Os oes, nid yw hynny'n glir".

### **3. DIWEDDARU'R RHAGLEN GYFALAF AR GYFER LLITHRIAD O 2019/20**

**3.1** Mae llithriad o £3,294k a ragwelir yn 2019/20 wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21. Roedd hyn yn seiliedig ar y sefyllfa alldro arfaethedig ar ddiwedd Chwarter 2. Mae adroddiad monitro Chwarter 3 wedi darparu gwybodaeth fwy cyfredol a disgwylir y bydd swm o £5,829k yn llithro o 2019/20 i 2020/21. Y prif newidiadau yw :-

- Mae'r llithriad a ragwelir ar gyfer y Safle Sipsiwn a Theithwyr wedi lleihau o £670k i £479k.
- Disgwylir oedi yn y prosiectau Porth Twristiaeth a Phartneriaeth Strategol Caergybi, sy'n cael eu cyllido gan grantiau, a disgwylir llithriad ychwanegol yn 2020/21.
- Disgwylir y bydd swm o £638k ar gyfer prosiect Amddiffynfeydd Llifogydd Traeth Coch yn llithro i 2020/21.
- Disgwylir i'r dyraniad cyfan o £200k yn 2019/20 ar gyfer y prosiect Diogelwch Ysgolion lithro i 2020/21 oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn i'r prosiect gael ei drosglwyddo i raglen 2020/21.
- Disgwylir tanwariant o £324k yn y grant cyfalaf i ehangu cyfleusterau ysgolion ar gyfer lleoliadau gofal plant. Gellir cario'r swm hwn drosodd i 2020/21, yn unol ag amodau'r grant.
- Yn yr un modd, mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi gofyn am gael trosglwyddo tua £30k yn ymwneud â Chynlluniau Datblygu Economaidd gyda'r nod o ddenu cyllid grant sylweddol i Ynys Môn.
- Mae prosiect Adfywio Caergybi (Rhan II Menter Treftadaeth Treflun) yn parhau i lithro i 2020/21, ac mae'r swm a amcangyfrifir tua £900k. Efallai y bydd newid yn y llithriad hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Adroddir ar unrhyw newidiadau ar ddiwedd y flwyddyn a gofynnir am gymeradwyaeth i'r gyllideb llithriadau ddiwygiedig ar gyfer 2020/21.

**3.2** Ar hyn o bryd mae cyfnod Band A y Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn tynnu tua'i therfyn. Amcangyfrifir gwariant o thua £10,167k ar brosiectau olaf Band A, a disgwylir y bydd swm o £1,205k o'r cyfanswm hwnnw yn cael ei wario yn 2020/21. Ym mis Ionawr, adroddwyd y byddai £5,297k yn cael ei wario ar brosiectau Band A yn 2020/21 ond mae oediadau'n ymwneud â phenderfynu ar fanylion y prosiect a'u cymeradwyo wedi arwain at ddiwygio'r amcangyfrif yma. Byddai'r mwyafrif o wariant y prosiect yn cael ei wneud yn 2021/22. Petai'r prosiect yn cael ei gymeradwyo.

**3.3** Disgwylir i brosiectau Band B wario llai yn 2020/21 a mwy yn 2021/22 a 2022/23. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd £1,550k yn cael ei wario ar brosiectau Band B yn 2020/21.

- 3.4 Yn ddiweddar dyfarnwyd i'r Cyngor gyllid grant cyfalaf ychwanegol werth £1,034k gan Lywodraeth Cymru i wella adeiladau ysgolion. O ystyried hwyrni'r cyhoeddiad, nid yw'n bosib i gynllunio a gwario'r grant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r anawsterau ac mae amodau'r grant yn caniatáu'r grant yma gael ei ddefnyddio yn lle cyllid craidd yn 2019/20, ar yr amod y defnyddir y cyllid craidd nas ddefnyddwyd tuag at welliannau ysgolion yn 2020/21. Dyrannwyd £1,000k yn y gyllideb ddrafft yn 2020/21 tuag at welliannau ysgolion a bydd derbyn y grant yma'n cynyddu'r; swm sydd ar gael i £2,034k yn 2020/21.
- 3.5 Erbyn hyn, amcangyfrifir tanwariant o £3,117k yn rhaglen gyfalaf y CRT ar gyfer 2019/20, oherwydd oedi mewn perthynas â phrynu, adnewyddu neu adeiladu tai newydd. O'r herwydd, ychwanegwyd llithriad o £3,117k i Raglen Gyfalaf y CRT ar gyfer 2020/21.
- 3.6 Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid grant a defnyddio'r dull rhataf o gyllido'r rhaglen gyfalaf, mae angen hyblygrwydd o ran dulliau cyllido. Felly, gall y ffynonellau cyllido a nodwyd fesul cynllun yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21 (fel y gwelir yn Atodiad 2) newid yn ystod 2020/21. Mae hyn yn ymarfer arferol ac mae'n caniatáu'r Cyngor i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf o grantiau a gwneir y defnydd lleiaf posib o fenthycia allanol..
- 3.7 Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2020/21 yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2**  
**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Derfynol ar gyfer 2020/21**

	<b>£'000</b>	<b>Cyf</b>
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20	5,829	Para 3.1
Adnewyddu/Amnewid Asedau	6,192	Para 3.4
Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd	2,174	Gweler adroddiad 13/01/2020
Mân-ddaliadau wedi ei gyllid o dderbyniadau cyfalaf	100	"
Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	2,755	Para 3.2 a 3.3
Cyfrif Refeniw Tai	20,255	Para 3.6
<b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21</b>	<b>37,305</b>	
<b>Cyllid drwy:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,165	
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol	2,364	
Benthyca â Chefnogaeth a ddygwyd ymlaen o 2019/20	1,034	
Derbyniadau Cyfalaf	245	
Arian Cyfalaf Wrth Gefn	500	
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	721	
Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	1,145	
Arian Wrth Gefn CRT a gwarged y flwyddyn	14,228	
Benthyca Digefnogaeth CRT	250	
CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20	3,117	
Grantiau Allanol	5,782	
Cyllid y Cyngor a ddygwyd ymlaen o 2019/20	5,754	
<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf ar gyfer 2020/21</b>	<b>37,305</b>	

## Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2020/21

Enw'r Cynllun	Cyllideb 2020/21 £	Cyllidir drwy								Cyfanswm Cyllid £'000
		Dygwyd ymlaen o 2019/20 £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Derbyniadau Cyfalaf £'000	Arian Cyfalaf Wrth Gefn £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Grantiau Allanol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn £'000	
<b>Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20</b>										
Safle Sipsiwn a Theithwyr Star	479	479								479
Porth Twristiaeth	1,003	1,003								1,003
Isadeiledd Strategol Caergybi	1,999	1,999								1,999
Isadeiledd Strategol Llangefni	256	256								256
Amddiffynfeydd Llifogydd Traeth Coch	638	638								638
Prosiect Diogelwch Ysgolion	200	200								200
Grant Cyfalaf ar gyfer Cynyddu Capasiti Gofal Plant	324	324								324
Cynlluniau Datblygu Economaidd	30	30								30
Adfywio Caergybi (Rhan II Menter Treftadaeth Treflun)	900	825			11	64				900
<b>Cyfanswm Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen</b>	<b>5,829</b>	<b>5,754</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>11</b>	<b>64</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>5,829</b>
<b>Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol – Adeiladau, Cerbydau, TG a Phrifyrdd</b>										
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	636		636							636
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg	300			300						300
Adnewyddu Ysgolion	1,000	1,034		1,000						2,034
Adnewyddu – Adeiladau heblaw Ysgolion	600			379	121	100				600
Ail-wynebu Priffyrdd	1,850		726	524				600		1,850
Prynu Cerbydau Newydd	480		480							480
Uwchraddio Offer TG a Phrynu Offer Newydd	292		292							292
<b>Cyfanswm Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol</b>	<b>6,192</b>	<b>1,034</b>	<b>2,134</b>	<b>2,203</b>	<b>121</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>600</b>	<b>-</b>	<b>6,192</b>
<b>Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21</b>										
Datblygu Economaidd a Llesiant Amgylcheddol	95			95						95
Llithrfa Porth y Wrach – Camerâu Gorfodaeth	30			30						30
Adnewyddu Cartref Preswyl Plas Mona	80		31	36	13					80
Cyllid Cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Lliniaru Llifogydd	573					86		487		573

Enw'r Cynllun	Cyllideb 2020/21 £	Cyllidir drwy								Cyfanswm Cyllid
		Dygydd ymlaen o 2019/20	Grant Cyfalaf Cyffredinol	Benthycia â Chefnogaeth	Derbyniadau Cyfalaf	Arian Cyfalaf Wrth Gefn	Benthycia Digefnogaeth	Grantiau Allanol	Cronfeydd Wrth Gefn	
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Gwelliannau Hamdden	250					250				250
Adnewyddu Mân-ddaliadau	100				100					100
Partneriaeth Tirlun Caergybi	1,146							1,146		1,146
<b>Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21</b>	<b>2,274</b>	<b>-</b>	<b>31</b>	<b>161</b>	<b>113</b>	<b>336</b>	<b>-</b>	<b>1,633</b>	<b>-</b>	<b>2,274</b>
<b>Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif / Moderneiddio Ysgolion</b>										
Cwblhau Rhaglen Band A	1,205			217			602	386		1,205
Cychwyn Rhaglen Band B	1,550			504			542	504		1,550
<b>Cyfanswm Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif / Moderneiddio Ysgolion</b>	<b>2,755</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>721</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>1,144</b>	<b>890</b>	<b>-</b>	<b>2,755</b>
<b>CYFANSWM CRONFA GYFFREDINOL</b>	<b>17,050</b>	<b>6,788</b>	<b>2,165</b>	<b>3,085</b>	<b>245</b>	<b>500</b>	<b>3,679</b>	<b>4,912</b>	<b>-</b>	<b>17,050</b>
<b>Cyfrif Refeniw Tai</b>										
Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd a Gwelliannau SATC	6,645							2,660	3,985	6,645
Datblygiadau Newydd ac ailbrynu eiddo 'Hawl i Brynu'	10,493						250		10,243	10,493
Prosiectau cyfalaf CRT a ddygydd ymlaen o 2019/20	3,117	3,117								3,117
<b>Cyfanswm Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>20,255</b>	<b>3,117</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>250</b>	<b>2,660</b>	<b>14,228</b>	<b>20,255</b>
<b>CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2020/21</b>	<b>37,305</b>	<b>9,905</b>	<b>2,165</b>	<b>3,085</b>	<b>245</b>	<b>500</b>	<b>1,145</b>	<b>5,783</b>	<b>14,228</b>	<b>37,305</b>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol